

## **Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys**

### **Cofnodion cyfarfod 19 Medi 2012**

Yn bresennol:

- Helen Morgan-Howard (Heddlu Dyfed-Powys) Cadeirydd
- Kerrie Phillips (Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys)
- Rhian Glynn (Heddlu Dyfed-Powys)
- Kay Thomas (Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys)
- PR (Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain)
- FM (Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain)
- PS (Ymgynghorydd Annibynnol)
- NH (Ymgynghorydd Annibynnol)
- MB (Ymgynghorydd Annibynnol)
- DT (Ymgynghorydd Annibynnol)
- BH (Ymgynghorydd Annibynnol)
- JJ (Ymgynghorydd Annibynnol)
- SR (Ymgynghorydd Annibynnol)
- NC (Ymgynghorydd Annibynnol)
- NM (Ymgynghorydd Annibynnol)
- BS (Ymgynghorydd Annibynnol)

#### **1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 3 Ymgynghorydd Annibynnol.

#### **2. Datganiadau o Ddiddordeb**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

#### **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2012**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2012 yn gofnod gwir a chywir.

Awgrymodd NM nad yw pobl sy'n fyddar/drwm eu clyw o reidrwydd yn defnyddio'r cyfleuster Text Relay a dylai'r Heddlu ystyried cyflwyno'r rhif difrys 101ar gyfer negeseuon testun. Cynghorodd NM y byddai defnyddio cyfleuster neges destun yn galluogi pobl

fyddar i gael mynediad at yr heddlu'n syth. Mae angen defnyddio cyfrifiadur neu linell ffôn benodol ar gyfer y cyfleuster Text Relay. Dywedodd NM bod y rhan fwyaf o bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yn defnyddio negeseuon testun fel ffordd o gyfathrebu. Cafodd yr awgrym hwn lawer o gefnogaeth gan ymgynghorwyr eraill. Cytunwyd y byddai Helen Morgan-Howard yn holi'r Heddlu ynghylch dichonolrwydd cyflwyno system o'r fath.

**PWYNT GWEITHREDU:** Y Swyddog Amrywiaeth i holi ynghylch dichonolrwydd gwasanaeth neges destun ar gyfer riportio materion difrys fel mater o flaenoriaeth.

#### **4. Materion yn codi**

Dim.

#### **MATERION I'W TRAFOD:**

#### **5. Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth ar gyfer Troseddau Casineb**

Cynghorwyd y grŵp gan Rhian Glynn, Swyddog Cymunedol Troseddau Casineb, bod yr Heddluoedd a'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yng Nghymru wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn symud gwaith mewn perthynas â Chynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARACau) ymlaen o ganlyniad i'r argymhellion a gynhwysir o fewn adroddiad Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "O'r Golwg yng Ngolwg Pawb". Dywedwyd wrth yr Aelodau beth yn union oedd MARACau a sut yr oeddynt yn ceisio mynd i'r afael ag adroddiadau am aflonyddu ar sail anabledd drwy ymagwedd aml-asiantaeth. Hysbyswyd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol y byddai digwyddiadau casineb ar sail anabledd yn derbyn asesiad risg trwy'r proses MARAC.

Soniodd Rhian wrth yr Aelodau am y mesurau sydd wedi'u gosod ar gyfer adnabod dioddefwyr troseddau casineb mynych yn gynnar, a all gychwyn fel adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhoddodd fanylion am y broses asesu risg yn y cam trin galwadau. Cynghorwyd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fod y broses wedi'i harwain yn bennaf gan yr heddlu, fodd bynnag, roedd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y gweithredir protocolau rhannu gwybodaeth cadarn er mwyn galluogi pob

asiantaeth i rannu gwybodaeth a chyflwyno achosion i'r cynadleddau achos aml-asiantaeth.

Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gallai pobl o'r gymuned fyddar gysylltu â'r heddlu er mwyn riportio digwyddiadau troseddau casineb. Cytunwyd y byddai Swyddog Amrywiaeth a Swyddog Cymunedol Troseddau Casineb yr Heddlu'n ymchwilio i sut y gellir cyflwyno'r cyfleuster hwn yn ehangach er mwyn galluogi hygyrchedd ar gyfer y gymuned fyddar. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach ar y cyfleuster 101 yn cael ei ddarparu i'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd trafodaethau ynghylch sut y gall pobl gysylltu â'u swyddogion lleol. Esboniodd y Swyddog Amrywiaeth y dylid cysylltu â phob swyddog drwy'r rhif 101, neu'r ganolfan gyswllt os yw swyddogion ar wyliau blynyddol ayyb. Byddai hyn hefyd yn galluogi cofnodi canolog a dosbarthu gwaith yn deg.

Hefyd, cafwyd trafodaeth ynglŷn â beth yn union y mae "aflonyddu ar sail anabledd" yn ei olygu. Dywedodd y Swyddog Cymunedol Troseddau Casineb wrth y Grŵp y byddai digwyddiad yn cael ei gofnodi fel digwyddiad casineb a'i drin yn briodol os yw unigolyn yn teimlo ei fod yn dioddef aflonyddu ar sail anabledd.

Daeth Rhian Glynn â gwybodaeth wedi'i saniteiddio mewn perthynas ag achos a oedd yn cael ei drin drwy'r broses MARAC i sylw'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Gofynnwyd i Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ystyried sut y gallai'r heddlu ac asiantaethau eraill reoli ymyrraeth gyda'r unigolion o ystyried y gwahaniaethau o ran diwylliant a hil.

Awgrymodd NC y gellid defnyddio ymgysylltydd â'r gymuned ac awgrymodd y gellid ystyried cyfryngu. Dywedodd y dylai'r heddlu ac asiantaethau eraill gynnig sicrwydd mewn perthynas â'r prosesau.

Dywedodd BS y byddai angen gwybodaeth bellach cyn y gellir rhoi barn wybodus, ond cynghorodd y dylai'r heddlu ystyried a oedd unrhyw un yn yr Heddlu wedi cael perthynas yn seiliedig ar ffydd gyda'r unigolion, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael.

Cytunwyd y byddai Rhian yn anfon rhagor o fanylion am y prosesau MARAC i Aelodau'r Grŵp ymgynghorol Annibynnol, a

phe bai unrhyw unigolyn yn dymuno cyngori mewn proses MARAC, dylent hysbysu Rhian yn unol â hynny.

Awgrymodd MB y gellid defnyddio unrhyw unigolion sydd am gymryd rhan cyn ac ar ôl y broses MARAC. Nodwyd hyn.

Dywedodd Rhian fod y Seminar Troseddau Casineb yn cael ei gynnal ar 25 Hydref 2012. Gwahoddir aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

**PWYNT GWEITHREDU:** Rhian i ail-ddosbarthu'r gwahoddiad e-bost.

## **6. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Cynhaliodd Helen Morgan-Howard gwis byr ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn ôl y Ddyletswydd, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw priodol i dair 'braich' y Ddyletswydd, sef:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf neu odani;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; ac
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Y nodweddion gwarchoddedig yw: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol. Mae 'braich' gyntaf y Ddyletswydd hefyd yn gymwys i Briodas a Phartneriaeth Sifil.

Cyflwynodd Helen yr Ymgynghorwyr i brif elfennau'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb o bolisiau a gweithdrefnau.

## **7. Cyflwyniad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol**

Yn anffodus, nid oedd modd i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Langley fod yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol oherwydd roedd yn rhaid iddo Gadeirio cyfarfod Grŵp Aur.

## 8. Aseiad Effaith Cydraddoldeb – Newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Darparodd Kerrie Phillips daenlen Cynllun Prosiect a gofynnodd i'r grŵp ystyried pa effeithiau andwyol o ran grwpiau gwarchoddedig a chydraddoldebau, os o gwbl, y gellir eu hadnabod o fewn y ffrydiau gwaith, a sut y gellid eu lliniaru. Nod y Cynllun Prosiect oedd rheoli a chynllunio ar gyfer y newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a thrwy hynny, galluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac ateb pob dyletswydd gyfreithiol. Gofynnodd Kerrie am i'r Aseidiadau Cydraddoldeb cael eu dychwelyd erbyn diwedd Medi. Trafodwyd rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

**PWYNT GWEITHREDU:** Cynorthwyo gydag Aseiad Cydraddoldeb o'r Cynllun Prosiect trawsnewid a chyflwyno ymatebion erbyn diwedd Medi.

## 9. Rôl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dywedodd Helen Morgan-Howard bod y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi bodoli ers blwyddyn bellach a gofynnodd i'r Aelodau am eu teimladau am sut oedd rôl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn. Amlinellwyd fod cynrychiolwyr o'r Heddlu a'r Awdurdod wedi bod yn gyfrifol am Gadeirio cyfarfodydd a gosod eitemau agenda. Gofynnwyd i'r Grŵp os oeddent yn ei ystyried yn briodol i un o'r Ymgynghorwyr gymryd yr awenau fel Cadeirydd. Cytunodd yr Aelodau eu bod yn hapus â'r trefniadau presennol ar gyfer Cadeirio cyfarfodydd, ac nid oeddent yn dymuno i un o'r Aelodau gymryd drosodd ar hyn o bryd.

Yn gynharach, roedd NM wedi dweud y byddai'n ddefnyddiol cael cyflwyniad gan Ymgynghorydd Annibynnol Digwyddiadau Argyfyngus. Yna, cafwyd trafodaeth am arbenigedd o fewn y grŵp ar bynciau amrywiol, profiadau dydd i ddydd, a chafwyd cyflwyniadau gan yr Ymgynghorwyr. Awgrymwyd y gallai Ymgynghorwyr ddarparu mewnbynnau ynglŷn â'u medrau a'u profiadau nhw'u hunain er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y grŵp. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei wneud gan y rhai a oedd yn dymuno rhoi mewnbynnau o'r fath yn unig.



Cytunwyd y dylai'r cyfarfodydd barhau i gael eu cadeirio gan Swyddogion yr Heddlu a'r Awdurdod ond y dylai ymgynghorwyr ymwneud mwy â'r broses o osod Agendâu. Cafwyd trafodaethau ynghylch sut y gallai'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fod eisiau datblygu'i hun a pha fathau o wybodaeth y gallai fod ei hangen yn y dyfodol.

**PWYNT GWEITHREDU:** Helen Morgan-Howard a Kerrie Phillips i Gadeirio dau gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, gyda'r Ymgynghorwyr yn darparu eitemau Agenda.

**PWYNT GWEITHREDU:** Ymgynghorydd i roi mewnbwn yn y cyfarfod nesaf.

## **10. Rôl Ymgynghorwyr Annibynnol**

Wrth iddi fynychu cyfarfodydd cyhoeddus/sefydliadol, dywedodd NH bod dryswch yn aml yn glân â'r capasiti y ceisiwyd ei phresenoldeb. Gofynnodd NH os oedd yn briodol dweud eu bod yn cynrychioli'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Dywedwyd wrthi y gellid sôn am y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, fodd bynnag, ni fyddai'n cael ei ystyried fel cynrychiolaeth oni bai bod Helen neu Kerrie wedi gofyn iddynt fynychu cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd, a chynghorwyd yr Aelodau i gysylltu â Helen Morgan-Howard neu Kerrie Phillips pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau mewn perthynas â hyn.

## **11. Unrhyw Fusnes Arall**

Holodd Helen Morgan-Howard y Grŵp os oeddent wedi clywed am Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, sef grwpiau aml-asiantaeth ar gyfer y Gwasanaethau Brys. Roedd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yng Ngogledd Cymru wedi cytuno i weithredu fel cysylltiadau cymunedol ar gyfer y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Yn ymarferol, golyga hyn y byddent yn chwarae rôl mewn 'rhybuddio a hysbysu' cymunedau adeg argyfyngau. Cytunodd rhai o aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i chwarae rôl debyg ar gyfer ardal Dyfed-Powys, gan gytuno i Helen anfon eu manylion cyswllt ymlaen. Yna, cafwyd trafodaeth yn glân â'r rôl y byddai disgwyl i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol gyflawni ar y Fforymau.

Dyweddodd JJ y dylai'r Heddlu annog Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth o fewn cymunedau a hysbysodd y cyfarfod ynghylch sut y mae'r Cynllun yn gweithio. Dywedodd Kerrie Phillips bod y Cynllun hwn yn syrthio dan gylch gwaith y proses Rheoli Bro a bod gan yr Heddlu Brif Arolygydd penodedig a oedd yn gyfrifol am ddwyn y gwaith ymlaen.

**PWYNT GWEITHREDU:** Kerrie Phillips/Helen Morgan-Howard i drafod y cynllun Gwarchod Cymdogaeth gyda'r Prif Arolygydd Mark Bleasdale gan gynnwys sut y gallai Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu gael mwy o ran yn y cynllun.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 y.h.**

<b>Rhif yr Eitem.</b>	<b>Pwynt Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
3	Y Swyddog Amrywiaeth i holi ynghylch dichonolrwydd cyfleuster riportio neges destun ar gyfer materion difrys.	Helen Morgan-Howard
5	Rhian i ail-ddosbarthu'r gwahoddiad e-bost i'r Seminar Troseddau Casineb ar 25 Hydref 2012.	Rhian Glynn
8	Aseiad Effaith Cydraddoldeb – Newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ddychwelyd eu hymatebion erbyn diwedd Medi
9	Helen Morgan-Howard a Kerrie Phillips i Gadeirio dau gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, gyda'r Ymgynghorwyr yn darparu eitemau Agenda.  Ymgynghorydd i roi mewnbwn yn y cyfarfod nesaf.	Helen Morgan-Howard a Kerrie Phillips  Ymgynghorwyr Annibynnol
11	Trafod y cynllun Gwarchod Cymdogaeth gyda'r Prif Arolygydd Mark Bleasdale gan gynnwys sut y gallai Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu gael mwy o ran yn y cynllun	Kerrie Phillips a Helen Morgan-Howard